COWBOIS CRYMYCH

Mae ‘na gwm yng Ngheredigion
Ac afon drwy y ddol
Lle mae’r brithyll tew yn gorwedd
Yn ddiogel yn ei chol
Mae gen I hen atgofion
O sgota’n dal ar ôl
A heibio’r aiff Cowbois Crymych
A’r gŵr drwg ar eu hol.

Rwy’n cofio gorwedd o dan y coed
Ar lan y Brefi fach
A’r wialen yn plygu dan y baich
I brofi nerth y bach
Ac yn yr hen anialwch
Daw gwledd o obaith ffôl
A heibio’r aiff Cowbois Crymych
A’r gŵr drwg ar eu hol.

Mae blynyddoedd ers I mi gario’r rhwyd
Ar lannau llaeth y Prysg
Ac mae oesoedd hir ers I mi weld
Hen ôl y cartiau llusg
Ac wrth I’m wylio’r wialen fach
Yn taflu’r plu o’r ddol
Heibio aiff Cowbois Crymych
A’r gŵr drwg ar eu hol.

O am heddwch, yno I grwydro
O’r dedwyddwch,
Eiliad fach I neb ond fi fy hun.

©Geraint Griffiths